

CYLLIDEB REFENIW 2019/20 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST						
Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant	Cyllideb Arfaethedig 2019/20	Amcan Sefyllfa Terfynol 2019/20	Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2019/20	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2019/20	Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2018/19
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
<u>Gwasanaethau Oedolion</u>						
Gwasanaethau Pobl Hŷn						
Preswyl a Nyrsio - Cartrefi	13,191	13,836	645	0	645	(540)
Gofal Cartref	6,831	6,370	(461)	0	(461)	(310)
Eraill	455	1,360	905	0	905	81
	20,477	21,566	1,089	0	1,089	(769)
Gwasanaethau Anabledd Corff	2,350	2,274	(76)	0	(76)	(217)
Gwasanaethau Anabledd Dysgu	18,190	18,498	308	0	308	(241)
Gwasanaethau Iechyd Meddwl	3,465	3,500	35	0	35	(30)
Gwasanaethau Eraill (Oedolion)	2,989	3,013	24	0	24	2
<u>Cyfanswm Gwasanaethau Oedolion</u>	47,471	48,851	1,380	0	1,380	(1,255)
<u>Gwasanaethau Darparu (dangos cyllideb net)</u>						
Gofal Preswyl	104	45	(59)	0	(59)	171
Gofal Dydd	30	344	314	0	314	154
Gofal Cymunedol	0	375	375	0	375	564
Eraill	0	32	32	0	32	62
<u>Cyfanswm Gwasanaethau Darparu</u>	134	796	662	0	662	951

CYLLIDEB REFENIW 2019/20 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST						
Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant	Cyllideb Arfaethedig 2019/20	Amcan Sefyllfa Terfynol 2019/20	Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2019/20	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2019/20	Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2018/19
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
<u>Gwasanaethau Eraill</u>						
Gwasanaethau Tai	1,898	1,974	76	0	76	89
Gwasanaethau Canolog Adrannol (<i>gan gynnwys arbedion yr Adran</i>)	3,374	3,583	209	0	209	230
Defnydd o gronfa benodol	0	(649)	(649)	0	(649)	0
<u>Cyfanswm Gwasanaethau Eraill</u>	5,272	4,908	(364)	0	(364)	319
<u>Cyfanswm Oedolion, Iechyd a Llesiant</u>	52,877	54,555	1,678	0	1,678	15

Oedolion, Iechyd a Llesiant

Gwasanaethau Pobl Hŷn - niferoedd mewn gofal preswyl a nyrsio ar ei fyny, gyda 28 achos newydd yn 2018/19 a 21 achos pellach eleni. Methiant i wireddu gwerth £669k o arbedion o fewn y pennawd 'Eraill' a gorwariant o £425k ar Lety Cefnogol, gyda chostau sefydlu cynllun Hafod y Gest yn gyfrifol am gyfran sylweddol o'r gorwariant. Lleihad yn y galw am becynnau gofal cartref yn parhau unwaith eto eleni.

Gwasanaethau Anabledd Corff - y tueddiad o leihad yn y nifer pecynnau gofal cartref yn parhau.

Gwasanaethau Anabledd Dysgu - effaith y galw cynyddol ar lety cefnogol a gwasanaethau dydd yn cael ei leihau gan danwariant ar breswyl a nyrsio.

Gwasanaethau Darparu - darparu oriau uwchlaw lefel y gyllideb yn y maes Gofal Cymunedol ynghyd â chostau uwch na'r incwm sydd yn cael ei ad-ennill ac felly yn gorwario £375k. Gorwariant o £314k ar Ofal Dydd. Costau staffio ychwanegol hefyd yn cyfrannu at y gorwariant gyda rhai o'r rhesymau yn cynnwys cartrefi wedi bod mewn mesurau arbennig, argymhellion gan Arolygiaeth Gofal Cymru, a phenodi uwchlaw'r gyllideb.

Gwasanaethau Tai - pwysau cynyddol ar lety dros dro i'r digartref a llithriad mewn gwireddu cynlluniau arbedion, ond derbyniad incwm a grantiau yn lleihau'r gorwariant a adroddir.

Gwasanaethau Canolog Adrannol - derbyniad incwm a swyddi gwag yn lleihau effaith y llithriad mewn gwireddu gwerth £277k o gynlluniau arbedion.

O ystyried y sefyllfa ariannol eleni, mae'n briodol bod defnydd o'r cyllid o £457k, sydd gyfwerth â grant cefnogi gwasanaethau cymdeithasol a dderbyniwyd yn 2017/18 ynghyd â £192k o gronfa tanwariant hanesyddol yr adran yn cael ei ddefnyddio i gynorthwyo i leddfu rhan o'r gorwariant.

Yn amlwg mae gorwariant sylweddol gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant eleni, gan bod angen egluro manylder cymhleth yn y darlun yma yng ngofal Oedolion, mae'r Prif Weithredwr eisioes wedi galw cyfarfod o'r swyddogion perthnasol er mwyn cael gwell dealltwriaeth a rhaglen glir i ymateb, fel sydd yn digwydd ym maes gofal Plant.

CYLLIDEB REFENIW 2019/20 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST

Adran Plant a Theuluoedd	Cyllideb Arfaethedig 2019/20	Amcan Sefyllfa Terfynol 2019/20	Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2019/20	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2019/20	Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2018/19
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Rheolaeth Gwasanaeth	581	605	24	0	24	(20)
Gweithredol	2,210	2,288	78	0	78	311
Lleoliadau						
Lleoliadau All-Sirol	1,628	3,246	1,618	0	1,618	1,117
Maethu Drwy Asiant	911	1,299	388	0	388	(43)
Maethu Mewnol	1,706	2,188	482	0	482	276
Gwasanaethau Cefnogol ac Eraill	1,668	1,704	36	0	36	163
	5,913	8,437	2,524	0	2,524	1,513
Ôl-16	1,035	1,079	44	0	44	329
Arbenigol/Derwen	1,814	2,146	332	0	332	328
Cyfiawnder Ieuenctid	280	236	(44)	0	(44)	(44)
Blynyddoedd Cynnar	144	94	(50)	0	(50)	(37)
Ieuenctid	851	749	(102)	0	(102)	(160)
Eraill	1,563	1,666	103	0	103	(24)
Derbyniad Grant 2018/19						(552)
Addasiad Cau Cyfrifon 2018/19						(1,544)
Cyfanswm Plant a Theuluoedd	14,391	17,300	2,909	0	2,909	100

Plant a Theuluoedd

Gweithredol - costau staff uwchlaw lefel y gyllideb ynghyd â chynnydd yn y nifer o blant mewn gofal ond ddim mewn lleoliadau drytach, yn parhau i orwario er fod y maes wedi derbyn adnodd ychwanegol o £100k ar gyfer 2019/20 ymlaen.

Lleoliadau - y gorwariant yn deillio o 4 achos lleoliad all-sirol newydd eleni, ynghyd ag effaith flwyddyn lawn 8 achos a ddechreuodd yn ystod 2018/19. Yn maethu drwy asiant, 5 achos newydd eleni ac effaith blwyddyn lawn 4 achos a gychwynwyd yn 2018/19. Cynnydd hefyd yn y niferoedd lleoliadau maethu mewnol. Yn dilyn adolygiad o'r ymrwymadau all-sirol, daeth yn amlwg y bu newid i'r math o achosion dros y blynyddoedd diwethaf, ac felly i'r costau cysylltiedig ac yn gydamserol, gwelwyd hefyd gwtogiad yng nghyfraniadau lechyd. Ymhellach i hyn, gwerth £370k o arbedion o fewn Lleoliadau sydd eto i'w gwireddu.

Arbenigol/Derwen – gorwariant o £332k sydd yn gyson gyda sefyllfa 2018/19, yn bennaf ar gynlluniau cefnogol yn dilyn cynnydd yn y galw am wasanaeth ac am gefnogaeth arbenigol.

leuenctid – tanwariant yn dilyn ail fodelu'r gwasanaeth leuenctid yn ddiweddar.

Blynyddoedd Cynnar – derbyniad grantiau yn y maes gofal plant yn gyfrifol am y tanwariant.

Eraill - gorwariant ar y gwasanaeth tu allan i oriau, ffioedd proffesiynol, adolygiadau statudol a gofyn uwch ar yr ymrwymiad i wasanaeth adfocatiaeth Gogledd Cymru.

O ystyried lefel gorwariant yr adran sydd yn gyson gyda thueddiad 2018/19, mae Tasglu Cyllideb Plant, wedi ei gomisiynu gan y Prif Weithredwr i roi sylw i faterion ariannol dyrys yr adran.

CYLLIDEB REFENIW 2019/20 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST						
Adran Addysg	Cyllideb Arfaethedig 2019/20	Amcan Sefyllfa Terfynol 2019/20	Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2019/20	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2019/20	Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2018/19
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Ysgolion Datganoledig	74,738	74,738	0	0	0	0
Gwasanaethau Ansawdd Ysgolion	(305)	(549)	(244)	0	(244)	(315)
Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol						
Cludiant	4,820	5,008	188	0	188	365
Gwasanaeth Atodol	413	660	247	0	247	43
Eraill	3,552	3,234	(318)	0	(318)	(120)
	8,785	8,902	117	0	117	288
Arweinyddiaeth a Rheolaeth	2,267	2,267	0	0	0	23
Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad	4,334	4,548	214	0	214	120
Addasiad Cau Cyfrifon 2018/19						(16)
Cyfanswm Addysg	89,819	89,906	87	0	87	100

Addysg

Gwasanaethau Ansawdd Ysgolion - arbedion ymlaen llaw, trosiant staff a defnydd o grantiau yn gyfrifol am y sefyllfa ffafriol.

Cludiant - yn dilyn y gorwariant ar y maes yma dros y blynyddoedd diwethaf, dyrannwyd £400k o gyllid ychwanegol ar gyfer 2019/20. Serch hyn, mae'r gorwariant yn parhau, gyda'r amcangyfrifon diweddaraf yn awgrymu £188k, gyda £39k ar Fysus Ysgol, £46k diffyg incwm ar Gludiant Ôl-16 a thaflunir gorwariant o £103k ar Gludiant Tacsis Ysgolion.

Mae'r maes Cludiant wedi bod yn destun adolygiad i geisio rheoli'r cynnydd yn y gwariant. Datrysiaid rhannol oedd y £400k a ddyrannwyd eleni gyda'r angen am waith pellach gan yr Adran Addysg a'r Adran Amgylchedd yn parhau, fel bod modd manteisio ar gyfleoedd effeithlonrwydd.

Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol - Gwasanaeth Atodol - diffyg incwm am yr elfen gofal o'r cynllun brecwast ac ar brydau ysgol ynghyd â gorwariant ar faterion staffio a salwch yn Arlwyath, Glanhau a Gofalu am ysgolion.

Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol - Eraill - llai o alw ar nifer o gyllidebau amrywiol gan gynnwys ar y gyllideb integreiddio.

Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad - Y gorwariant sydd yn ymwneud ag amgylchiadau mewn un ganolfan benodol yn parhau ac yn gyfrifol am £179k o'r gorwariant, gyda gweddill y gorwariant un-tro yn deillio o gyfnod trosiannol Unedau Cyn Ysgol Addysg Blynyddoedd Cynnar ac Addysg heblaw mewn Ysgol.

CYLLIDEB REFENIW 2019/20 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST						
Adran Economi a Chymuned	Cyllideb Arfaethedig 2019/20	Amcan Sefyllfa Terfynol 2019/20	Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2019/20	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2019/20	Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2018/19
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Rheolaeth	352	352	0	0	0	29
Rhaglenni Adfywio a Chefnogi Cymunedau	390	361	(29)	0	(29)	(31)
Morwrol a Pharciau Gwledig	75	61	(14)	0	(14)	14
Cytundebau Hamdden	1,430	1,463	33	0	33	340
Rhaglenni Chwaraeon	105	80	(25)	0	(25)	(77)
Rhaglenni Datblygu Economiadd	49	28	(21)	0	(21)	(57)
Marchnata a Digwyddiadau	272	272	0	0	0	(35)
Llyfrgelloedd Gwynedd	1,593	1,582	(11)	0	(11)	(45)
Amgueddfeydd, Celfyddydau ac Archifau Gwynedd	859	919	60	0	60	47
Addasiad Cau Cyrifon 2018/19						(157)
Cyfanswm Economi a Chymuned	5,125	5,118	(7)	0	(7)	28

Economi a Chymuned

Rhaglenni Adfywio a Chefnogi Cymunedau - swyddi gwag ac arbedion wedi eu gwireddu yn fuan yn gyfrifol am y tanwariant a ragwelir.

Morwrol a Pharciau Gwledig - diffyg incwm a gorwariant staffio tymhorol gan y Traethau yn cael ei ddileu gan y Parciau Gwledig a Hafan, Pwllheli. Y ffigyrau diweddaraf yn awgrymu sefyllfa gytbwys gan yr Harbyrau, sydd wedi bod yn broblemus dros y blynyddoedd diwethaf, yn dilyn i'w targed incwm gael ei leihau eleni.

Cytundebau Hamdden - trosglwyddwyd y ddarpariaeth Hamdden i Cwmni Byw'n Iach ar 1 Ebrill 2019, rhagwelir gorwariant o £33k ar gostau rhedeg y canolfannau hamdden.

Amgueddfeydd, Celfyddydau ac Archifau Gwynedd - Problemau yn parhau yn Storiel gyda rhagolygon o ddiffyg o £70k, sydd yn gyfuniad o orwariant ar gostau staff a diffyg yn yr incwm. Tanwariant ar y Celfyddydau yn cynorthwyo rhywfaint ar y sefyllfa ariannol.

CYLLIDEB REFENIW 2019/20 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST

Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol (yn cynnwys Cefnffyrdd)	Cyllideb Arfaethedig 2019/20	Amcan Sefyllfa Terfynol 2019/20	Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2019/20	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2019/20	Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2018/19
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Gwasanaethau Priffyrdd (cynnwys Cefnffyrdd)	9,950	9,944	(6)	0	(6)	94
Gwasanaethau Peirianeg	384	438	54	0	54	(5)
Gwasanaethau Bwrdeistrefol						
Gwastraff	11,345	12,066	721	0	721	503
Eraill	4,057	4,021	(36)	0	(36)	26
Addasiad Cau Cyfrifon 2018/19						(518)
Cyfanswm Priffyrdd a Bwrdeistrefol	25,736	26,469	733	0	733	100

Priffyrdd a Bwrdeistrefol (gan gynnwys Cefnffyrdd)

Gwasanaethau Peirianeg - oediad mewn gwireddu cynllun arbedion ynghyd â diffyg incwm, ond trafodaethau'n parhau i geisio datrysiaid.

Gwastraff - cynnydd yn y tueddiad gorwariant a welwyd yn 2018/19 yn y maes Gwastraff i £721k. Rhagolygon gorwariant o £211k ar y costau trosiannol ymdrin a chludo gwastraff drwy'r cyfleuster rhanbarthol 'Troi Gwastraff yn Ynni' sydd wedi ei leoli yn Nglannau Dyfrdwy.

Er fod yr adran wedi cymryd camau i leihau costau drwy newid shifftiau a threfniadau cylchdeithiau casglu gwastraff, bu oediad mewn gweithredu. Mae'r trefniadau newydd bellach wedi dod i rym yn Nwyfor, gyda Arfon i ddilyn yn Nhachwedd 2019, costau trosiannol cysylltiedig â chostau salwch yn gyfrifol am £162k o'r gorwariant.

Cynnydd mewn costau gweithredol a thrafnidiaeth, diffyg grant ac yn yr incwm ar wastraff, deunyddiau ailgylchu ac o baneli solar.

Er fod rhai camau ar yr ochr Gwastraff eisoes wedi eu cymryd yn ystod y flwyddyn i sicrhau mesurau i weithredu o fewn y gyllideb, nodir bu oedi gyda'r gweithrediad eleni.

Gwasanaethau Bwrdeistrefol Eraill - er mai tanwariant o (£36k) a adroddir, darlun cymysg ar wahanol elfennau o'r gwasanaeth gyda rhai gwasanaethau, megis Cyfleusterau Cyhoeddus a Thiroedd Agored, yn gorwario ond yn cael ei leddfu gan danwariant mewn meysydd eraill, sef Gweinyddol, Gwasanaethau Profedigaethau a Gwastraff Masnachol.

CYLLIDEB REFENIW 2019/20 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST						
Adran Amgylchedd	Cyllideb Arfaethedig 2019/20	Amcan Sefyllfa Terfynol 2019/20	Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2019/20	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2019/20	Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2018/19
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Rheolaeth yr Adran	437	379	(58)	0	(58)	(50)
Gwasanaeth Cynllunio	402	547	145	0	145	(163)
Gwasanaethau Gofal Stryd a Thrafnidiaeth						
Rheolaeth Rhwydwaith (Trafnidiaeth)	637	580	(57)	0	(57)	(256)
Parcio a Gorfodaeth Parcio	(1,681)	(1,902)	(221)	0	(221)	(9)
Cludiant Integredig	1,567	1,566	(1)	0	(1)	91
	523	244	(279)	0	(279)	(174)
Cefn Gwlad a Mynediad	724	736	12	0	12	10
Gwarchod y Cyhoedd	1,677	1,620	(57)	0	(57)	(80)
Eiddo, Gofalu, Arlwyo a Glanhau	3,520	3,458	(62)	0	(62)	(35)
Addasiad Adolygiad Diwedd Awst 2019				220	220	0
Addasiad Cau Cyfrifon 2018/19						392
Cyfanswm Amgylchedd	7,283	6,984	(299)	220	(79)	(100)

Amgylchedd

Rheolaeth - tanwariant cyffredinol ac arbedion ymlaen llaw yr adran wedi arwain at arbedion un-tro ar y pennawd Rheolaeth.

Gwasanaeth Cynllunio - y tueddiad cyffredinol o ddiffyg yn yr incwm yn y maes Rheolaeth Datblygu yn parhau unwaith eto eleni, ond yn cael ei leihau gan danwariant ar wasanaethau, cyflenwadau a chludiant.

Gwasanaethau Gofal Stryd a Thrafnidiaeth - gorgyflawni incwm yn y maes Traffig a Threfniadau Statudol sydd yn rhan o gynlluniau arbedion blynyddoedd nesaf yr adran. Rhagolygon ffafriol o ran yr incwm ynghyd â llai o wariant ar Barcio a Gorfodaeth.

Cludiant Integredig - tanwariant un-tro ar gostau staff a rhagori ar incwm yn lleihau effaith y costau ychwanegol ar gytundebau bysus. Yr adran hefyd yn gwneud defnydd o gronfa a neilltuwyd i'r pwrpas nôl tuag at y costau cynyddol. Mae'r adran yn y broses o gynnal adolygiad o gludiant cyhoeddus ac wedi comisiynu ymchwil gan y Brifysgol i adolygu'r ddarpariaeth.

Gwarchod y Cyhoedd - y gwasanaeth mewn cyfnod o drawsnewid ac felly yn gorwario ar gostau staffio sydd yn cael ei ddileu drwy ragori ar incwm yn y maes Trwyddedu, Tacsis a Difa Pla a drwy wariant is ar ddeunyddiau samplu dŵr a gwasanaethau a chyflenwadau.

Eiddo, Gofalu, Arlwyo a Glanhau - swyddi gwag a secondiadau sydd bennaf gyfrifol am y tanwariant.

Yn dilyn adolygiad barnwrol diweddar o gynllun cyfalaf yn ymwneud â Ffordd fynedfa Llanbedr, o ganlyniad i resymau tu hwnt i reolaeth y Cyngor rhagwelir ymrwymiad o £220k. Yn yr amgylchiadau **argymhellir** fod y Cabinet yn caniatáu i'r Adran Amgylchedd neilltuo (£220k) o danwariant yr Adran i gronfa benodol i'r pwrpas tuag at y costau perthnasol.

CYLLIDEB REFENIW 2019/20 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST						
Adran Ymgynghoriaeth	Cyllideb Arfaethedig 2019/20	Amcan Sefyllfa Terfynol 2019/20	Amcan Gor / (Tan) Variant Gros 2019/20	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Amcan Gor / (Tan) Variant Addasedig 2019/20	Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2018/19
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Gwasanaethau Ffyrdd a Pheirianeg	(637)	(620)	17	0	17	(62)
Uned Systemau Traenio Cynaliadwy (SuDS)	37	37	0	0	0	0
Uned Rheoli Risg Llifogydd	571	572	1	0	1	(16)
Rheolaeth Adeiladu	94	118	24	0	24	19
Cyfanswm Ymgynghoriaeth	65	107	42	0	42	(59)

Ymgynghoriaeth

Gwasanaethau Ffyrdd a Pheirianeg - y rhagolygon diweddaraf yn awgrymu diffyg incwm o £17k, ond y gwasanaeth yn parhau i ymgeisio am waith ac felly denu rhagor o incwm ar amrywiol gynlluniau gan sefydliadau allanol, megis Cynghorau eraill a Llywodraeth Cymru

Uned Systemau Traenio Cynaliadwy (SuDS) - rhagolygon diffyg incwm yn ystod y cyfnod o sefydlu'r uned newydd yma yn cael ei leddfu gan danwariant ar gostau staff.

Rheolaeth Adeiladu - diffyg incwm a gorwariant ar gostau trafndiaeth yn gyfrifol am y gorwariant a ragwelir.

CYLLIDEB REFENIW 2019/20 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST						
Adrannau Canolog	Cyllideb Arfaethedig 2019/20	Amcan Sefyllfa Terfynol 2019/20	Amcan Gor / (Tan) Variant Gros 2019/20	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Amcan Gor / (Tan) Variant Addasedig 2019/20	Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2018/19
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol	1,786	1,669	(117)	0	(117)	(76)
Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth)	6,440	6,379	(61)	0	(61)	(59)
Cefnogaeth Gorfforaethol	7,469	7,369	(100)	0	(100)	(61)
Cyfanswm Adrannau Canolog	15,695	15,417	(278)	0	(278)	(196)

Adrannau Canolog

Tim Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol - rhagolygon diweddaraf yn awgrymu tanwariant o (£117k), o ganlyniad i swydd y Cyfarwyddwr Corfforaethol yn dod yn wag am ran o'r flwyddyn ynghyd â derbyniad incwm ychwanegol gan yr Uned Gyfreithiol.

Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth) - cyfuniad o resymau yn gyfrifol am y tanwariant, gan gynnwys tanwariant un-tro ar drosiant staff, secondiadau, a derbyniad incwm a grantiau ychwanegol. Incwm ychwanegol o wahanol ffynonellau, gan gynnwys Llywodraeth Cymru am y maes gweinyddu rhyddhad trethi annomestig a grant ychwanegol cyfnod trosiannol gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) yn y maes Budd-daliadau. Ymhellach, mae'r adran wedi llwyddo i gyflawni arbedion ymlaen llaw eleni ac wedi eu dargyfeirio i bwrpas Corfforaethol.

Cefnogaeth Gorfforaethol - y tanwariant yn bennaf ar dderbyniad incwm allanol uwchlaw lefel y gyllideb mewn nifer o feysydd ar draws yr adran, gan gynnwys Gwasanaeth Ymgynghorol Adnoddau Dynol, Cyfieithu, Cofrestru a Democratiaeth. Swyddi gwag hefyd yn cyfrannu at y sefyllfa ffafriol, mewn paratoad ar gyfer arbedion y blynyddoedd nesaf, gan nad oes galwad ar yr arbedion eleni mae'r adran eisoes wedi trosglwyddo rhan o'i arbedion ymlaen llaw i bwrpas Corfforaethol.

CYLLIDEB REFENIW 2019/20 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST						
Corfforaethol (Dim ond yn adlewyrchu y gwahaniaethau)	Cyllideb Arfaethedig 2019/20	Amcan Sefyllfa Terfynol 2019/20	Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2019/20	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2019/20	Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2018/19
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Treth Cyngor	*	*	(392)	392	0	(24)
Gostyngiadau Treth Cyngor	*	*	(201)	201	0	(265)
Derbyniad Llog Net	*	*	(226)	226	0	(139)
Costau Cyfalaf	*	*	(240)	240	0	0
Cynnal a Chadw Corfforaethol	*	*	(995)	995	0	0
Cyllidebau a Bidiau a ddychwelwyd gan Adrannau	*	*	(423)	423	0	(937)
Arbedion a Gyflawnwyd Ymlaen Llaw	*	*	(373)	373	0	0
Eraill	*	*	(17)	17	0	(651)
Addasiad Cau Cyrifon 2018/19						2,016
Cyfanswm Corfforaethol	*	*	(2,867)	2,867	0	0

Corfforaethol

Treth Cyngor a Premiwm Treth Cyngor - Sefyllfa ffafriol o dreth ychwanegol o (£392k) ar Dreth Cyngor. Adroddir ar sefyllfa niwtral o ran Premiwm Treth Cyngor, gyda Swyddfa'r Prisiwr eisoes wedi caniatáu trosglwyddo 187 eiddo o'r rhestr Treth Cyngor i Drethi Annomestig hyd at ddiwedd Awst (453 yn 2018/19, 282 yn 2017/18, a 199 yn 2016/17). Rydym yn aros i glywed gan Lywodraeth Cymru a'r Swyddfa Prisiwr am ymgyrch Gwynedd i atal perchnogion ail gartrefi rhag osgoi'r dreth.

Gostyngiadau Treth Cyngor - rhagwelir tanwariant o (£201k) gan fod niferoedd ceisiadau y cynllun Gostyngiad Treth Cyngor (budd-daliadau) yn gyffredinol ar ei lefel isaf am y bedwaredd blynedd yn olynol ar hyd Gogledd a Chanolbarth Cymru. Yng Ngwynedd gwelwyd lleihad o bron i 10% dros y cyfnod.

Derbyniad Llog Net - newidiadau diweddar yn y maes rheolaeth trysorlys yn galluogi Cynghorau Cymru i fuddsoddi mewn eiddo buddsoddi sydd wedi arwain at ddychweliadau uwch.

Costau Cyfalaf - polisi rheolaeth trysorlys presennol yn golygu gellid osgoi benthyca allanol am hanner y flwyddyn eleni sydd yn creu tanwariant yn erbyn y gyllideb costau cyfalaf. Yn dilyn sefydlu Cynllun Rheoli Asedau 2019/20 ymlaen ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, awgrymir y dylid dargyfeirio'r tanwariant i gronfa i'w ddefnyddio i gynorthwyo gydag ariannu'r rhaglen gyfalaf.

Cynnal a Chadw Corfforaethol - derbyniad grantiau ychwanegol yn gyfrifol am danwariant ar y rhaglen cynnal a chadw eleni ac felly awgrymir y dylid trosglwyddo'r arian i gronfa benodol i ariannu'r gwariant i'r dyfodol.

Cyllidebau a Bidiau a ddychwelwyd gan Adrannau - dychwelyd bid o (£193k) Integreiddio Addysg na fydd ei angen yn 2019/20, ynghyd â materion eraill nad yw'r galw bellach mor ddwys o'i gymharu â'r hyn a ragwelwyd wrth osod y gyllideb.

Arbedion a Gyflawnwyd Ymlaen Llaw - arbedion wedi eu gwireddu yn fuan eleni.

Argymhellir fod (£240k) yn ymwneud â chostau cyfalaf yn cael ei neilltuo i gronfa ariannu'r rhaglen gyfalaf, (£995k) ar gynnal a chadw corfforaethol yn cael ei drosglwyddo i gronfa cynnal a chadw, gyda gweddill y tanwariant net ar gyllidebau Corfforaethol, sef (£1,632k) yn cael ei drosglwyddo i Gronfa Cefnogi'r Strategaeth Ariannol i leddfu'r risg gorwariant adrannau'r Cyngor yn 2019/20.